# CYNLLUN MARCIO TAG UG

**HAF 2022**

**UG**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT – UNED 1**
**2570N10-1**

© WJEC CBAC Ltd.

## RHAGARWEINIAD

Cafodd y cynllun marcio hwn ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Cafodd ei gwblhau ar ôl trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr a oedd yn ymwneud â'r asesu. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl i'r papur gael ei sefyll fel y gellid cyfeirio at yr ystod lawn o atebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Nod y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn yr un ffordd gan yr holl arholwyr.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir hefyd y gall athrawon, heb y fantais o gymryd rhan yng nghynhadledd yr arholwyr, fod â safbwyntiau gwahanol ynghylch rhai materion ynglŷn â manylion neu ddehongliad.

Ni all CBAC fod yn rhan o unrhyw drafodaeth na gohebiaeth yn ymwneud â'r cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**TAG IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT – UNED 1**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2022**

## Canllawiau i arholwyr

### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael marc o sero. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn. Mae *cynnwys 'Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir dyfarnu marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau a gaiff eu marcio yn seiliedig ar fandiau, mae'r cynlluniau marcio mewn dwy ran, sef y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni roddir unrhyw farciau.

Mewn TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae'r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau y gellir eu dyrannu i gwestiwn yn amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a'r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Asesir ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle bo cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, dyfernir marc am bob amcan asesu ac wedyn caiff y marciau hynny eu hadio at ei gilydd er mwyn rhoi marc cyffredinol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hynny'n golygu, ar gyfer ymateb pob ymgeisydd, bod marciau'n cael eu cronni am arddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau â'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | *Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn enghraifft o ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer Cymru.*<br><br>*Disgrifiwch beth yw prif egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.* | 8 | | | 8 |
| | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn galluogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i gyflawni ansawdd bywyd da drwy fynd i'r afael â thlodi, anghydraddoldebau iechyd, swyddi a thwf, a newid hinsawdd drwy gydweithio a meddwl am effaith tymor hir penderfyniadau a wneir gan wasanaethau cyhoeddus.<br><br>Mae'r ddeddfwriaeth yn cefnogi newid drwy wneud y canlynol:<br>• annog cyrff cyhoeddus i weithredu mewn ffordd gydgysylltiedig wrth ddarparu system o wasanaethau cynaliadwy tymor hir<br>• gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl sy'n byw yng Nghymru<br>• annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus i weithio'n well â phobl a chymunedau a'i gilydd er mwyn ceisio osgoi problemau yn y dyfodol<br>• darparu gweledigaeth a rennir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus drwy'r saith nod llesiant i bawb weithio tuag atynt:<br>    o Cymru lewyrchus – lle mae gan bawb swydd a lle nad oes unrhyw dlodi<br>    o Cymru gydnerth – lle mae'r genedl yn barod am ddigwyddiadau fel llifogydd a phandemigau<br>    o Cymru iachach – lle mae pawb yn iachach a gall pawb weld y meddyg pan fydd angen iddynt wneud hynny<br>    Cymru sy'n fwy cyfartal – lle caiff pawb gyfle cyfartal ni waeth beth fo'u cefndir<br>    o Cymru o gymunedau cydlynus – lle gall cymunedau fyw'n hapus gyda'i gilydd<br>    o Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – lle mae gennym lawer o gyfleoedd i wneud gwahanol bethau a lle mae llawer o bobl yn gallu siarad Cymraeg<br>    o Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – lle rydym yn edrych ar ôl yr Amgylchedd ac yn meddwl am bobl eraill ledled y Byd | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | • penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i wneud y canlynol:<br>o sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at y nodau llesiant.<br>o diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.<br>o awgrymu sut y gall cyrff cyhoeddus weithio'n well.<br>o ysgrifennu adroddiad blynyddol ar gynnydd Cymru wrth gyflawni'r saith nod llesiant.<br>o awgrymu sut y gall cyrff cyhoeddus gydweithio'n well a chynnwys pobl a chymunedau wrth wneud penderfyniadau<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o brif egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau allweddol e.e. y saith nod llesiant, rôl cyrff cyhoeddus, rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o brif egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o gysyniadau allweddol e.e. y saith nod llesiant, rôl cyrff cyhoeddus, rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o rai o brif egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau allweddol e.e. y saith nod llesiant, rôl cyrff cyhoeddus, rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• dealltwriaeth brin o gysyniadau allweddol, fel y saith nod llesiant |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | (a) | *Amlinellwch beth yw ystyr iechyd a llesiant cyfannol, a'r ffactorau sy'n cyfrannu atyn nhw.* | 6 | | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Gellir diffinio iechyd cyfannol fel:<br><br>Cyflwr o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn yn hytrach na dim ond diffyg clefyd neu wendid (*Sefydliad Iechyd y Byd*)<br><br>Cysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant:<br>• ystyried y person cyfan a sut mae'n rhyngweithio â'i amgylchedd<br>• pwysleisio'r cysylltiad rhwng y meddwl, y corff a'r enaid<br>• annog pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu lefel eu hunain o iechyd a llesiant<br>• yn seiliedig ar y cydbwysedd byw o'r 'person cyfan' yn hytrach na dim ond diffyg clefyd<br><br>Mae iechyd a llesiant yn rhyngddibynnol ar bum ffactor:<br>• corfforol e.e. iechyd da (diffyg clefyd), yr amgylchedd rydym yn byw ynddo<br>• meddyliol/deallusol e.e. cyflogaeth, addysg, hyfforddiant<br>• emosiynol e.e. cael eich caru, cael eich gwerthfawrogi<br>• cymdeithasol e.e. cael ffrindiau a/neu deulu cefnogol<br>• moesol/ysbrydol e.e. credoau crefyddol neu ddiwylliannol<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Amlinelliad da iawn sy'n:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r diffiniad o iechyd a llesiant cyfannol<br>• gwybodaeth glir am y ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant cyfannol |
| **2** | **3-4 marc**<br>Amlinelliad da sy'n:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o iechyd a llesiant cyfannol<br>• gwybodaeth am rai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant cyfannol |
| **1** | **1-2 marc**<br>Amlinelliad sylfaenol sy'n:<br>• dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut, o ran iechyd a llesiant cyfannol<br>• rhywfaint o wybodaeth am o leiaf un ffactor sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant cyfannol |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Mae’r model bioseicogymdeithasol yn enghraifft o fodel cyfannol ar gyfer iechyd, anabledd a llesiant.*<br><br>*Trafodwch beth yw prif nodweddion y model bioseicogymdeithasol.* | | | 6 | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Mae'r model bioseicogymdeithasol a gynigiwyd gan George Engle ddiwedd yr 1970au yn honni bod iechyd a llesiant yn dibynnu ar ryngweithio rhwng tri ffactor: ffactorau biolegol, ffactorau seicolegol a ffactorau cymdeithasol. Yn ogystal â ffactorau biolegol, mae ffactorau seicolegol ac amgylchedd diwylliannol unigolyn yn chwarae rhan yr un mor bwysig naill ai wrth gynnal iechyd a llesiant neu o ran dirywiad iechyd a llesiant.<br><br>Mae prif nodweddion y model bioseicogymdeithasol fel a ganlyn:<br>• mae'n ystyried iechyd, anabledd a llesiant mewn ffordd gyfannol sy'n helpu i ddarparu ymagwedd unigol tuag at ofal a chymorth<br>• caiff safbwyntiau unigolion a'u gofalwyr eu hystyried, gan arwain at welliant seicolegol a chymdeithasol cyflymach, a fydd yn galluogi gwelliant ffisiolegol cyflymach<br>• wrth ddefnyddio'r model hwn, anaml y bydd unigolion yn teimlo'n ddiymadferth neu eu bod allan o reolaeth a byddant yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a'u galluogi<br>• Mae'r rhyngweithio rhwng y tri phrif ffactor (biolegol, seicolegol, cymdeithasegol) yn cynnig bod angen iechyd meddwl ac iechyd emosiynol da arnom er mwyn cynnal ffordd iach o fyw. Gall rheoli ein hiechyd meddwl, yn ogystal â'r effeithiau y gall cymdeithas eu cael arnom, helpu i atal clefydau. Mae hyn yn gosteffeithiol, gan fod atal yn aml yn well na gwella mewn sawl achos.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n:<br>• ystyried amrywiaeth o nodweddion sy'n gysylltiedig â'r model bioseicogymdeithasol gan ddangos dealltwriaeth glir o'r dull<br>• cynnwys trafodaeth fanwl o brif nodweddion y model bioseicogymdeithasol mewn perthynas ag iechyd, llesiant ac anabledd |
| **2** | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n:<br>• ystyried nodweddion sy'n gysylltiedig â'r model bioseicogymdeithasol gan ddangos dealltwriaeth o'r dull<br>• cynnwys trafodaeth o nodweddion y model bioseicogymdeithasol mewn perthynas ag iechyd, llesiant a/neu anabledd… |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n:<br>• ystyried, yn syml, rai o nodweddion y model bioseicogymdeithasol<br>• cynnwys trafodaeth sylfaenol o nodweddion y model bioseicogymdeithasol mewn perthynas ag iechyd, llesiant neu anabledd …. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **3.** | *Mae mesurau ataliol fel rhaglen frechu (vaccination programme) yn gallu cael eu defnyddio i leihau lledaeniad clefyd heintus.*<br><br>*Ystyriwch sut mae'n bosibl gwneud mesurau ataliol yn fwy effeithiol drwy addysg a chefnogaeth deuluol/cymunedol.* | | | 10 | 10 |
| | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Gallai addysg gefnogi mesurau ataliol drwy wneud y canlynol:<br>• darparu gwybodaeth gywir a all arwain at ddewisiadau gwell o ran ffordd o fyw<br>• gellir darparu amrywiaeth o weithgareddau a deunyddiau addas wedi'u hanelu'n benodol at oedran a gallu'r dysgwr er mwyn cyfleu'r wybodaeth gywir a hwyluso dealltwriaeth<br>• darparu amgylchedd addas ar gyfer annog newid ymddygiadol ar raddfa fawr er mwyn sicrhau mai dilyn mesurau ataliol yw'r norm<br>• annog trafodaeth ymhlith grwpiau cyfoedion am bwysigrwydd materion sy'n rhoi cefnogaeth gymdeithasol er mwyn grymuso unigolion i fabwysiadu mesurau ataliol<br>• sefydliadau yn annog "dull ysgol gyfan" lle ceir cydlyniad rhwng polisïau ac arferion yr ysgol a mesurau ataliol<br><br>Gallai cefnogaeth deuluol/cymunedol gefnogi mesurau ataliol drwy wneud y canlynol:<br>• datblygu a chynnal agweddau, gwerthoedd ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig â hybu iechyd aelodau<br>• annog a chefnogi'r aelodau unigol i ymgymryd â mesurau ataliol<br>• codi ymwybyddiaeth o risgiau a chanlyniadau peidio â dilyn cyngor ac arweiniad mewn perthynas â materion iechyd<br>• bod yn fodelau rôl cadarnhaol i aelodau eraill o'r teulu/cymuned drwy ddilyn cyngor ac arweiniad<br><br>Roedd y mesurau ataliol a gyflwynwyd yn cynnwys e.e.<br>• aros gartref er mwyn helpu i atal clefydau fel y coronafeirws (COVID-19) rhag lledaenu, dim ond gadael y tŷ am resymau cyfyngedig iawn<br>• rhaglenni brechu<br>• sgrinio<br>• rheoli straen<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **9-10 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos:<br>• barn graff a gwybodus am sut mae'n bosibl gwneud mesurau ataliol yn fwy effeithiol drwy addysg a chefnogaeth deuluol/cymunedol<br>• ystyriaeth hyderus a manwl o fesurau ataliol. |
| **3** | **6-8 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos:<br>• barn resymegol am sut mae'n bosibl gwneud mesurau ataliol yn fwy effeithiol drwy addysg a chefnogaeth deuluol/cymunedol<br>• ystyriaeth drylwyr o fesurau ataliol. |
| **2** | **3-5 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:<br>• barn ddilys ar y cyfan am sut mae'n bosibl gwneud mesurau ataliol yn fwy effeithiol drwy addysg a chefnogaeth deuluol/cymunedol<br>• ystyriaeth syml o fesurau ataliol. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:<br>• peth barn ddilys am sut mae'n bosibl gwneud mesurau ataliol yn fwy effeithiol drwy addysg a chefnogaeth deuluol/cymunedol<br>• ystyriaeth brin o fesurau ataliol. |
|  | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **4.** | *Mae Joe yn 75 oed ac mae'n byw ar ei ben ei hun. Mae'n byw gydag asthma, ac mewn apwyntiad clinig yn ddiweddar, dywedodd y nyrs asthma wrtho am fenter Llywodraeth Cymru o'r enw "Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel".*<br><br>*Esboniwch beth yw rôl y fenter "Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel" o ran gwella iechyd, llesiant a gwydnwch pobl hŷn (older people) yng Nghymru.* | | 8 | | 8 |
| | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Mae "Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel" yn rhaglen gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at wella iechyd a llesiant a gwydnwch pobl hŷn yng Nghymru yn ystod y gaeaf a lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y cyfnod drwy wneud y canlynol:<br>• defnyddio dull cydgysylltiedig rhwng gwasanaethau iechyd a gofal, sefydliadau'r trydydd sector (e.e. Age Cymru) er mwyn gwella iechyd a llesiant unigolion agored i niwed yn y boblogaeth yng Nghymru gan gynnwys pobl hŷn<br>• rhoi cymorth a chyngor a chyfeirio pobl hŷn at wybodaeth am y canlynol:<br>o cyngor iechyd cyffredinol<br>o sut i gysylltu â meddyg neu fferyllfa y tu allan i oriau<br>o brechu rhag y ffliw (atal ffliw)<br>o brechu niwmococol (atal niwmonia)<br>o Dal Ati, Aros yn Ddiogel (atal cwympiadau)<br>o Nyth (rhaglen cartrefi cynnes)<br>o cyngor ac arweiniad ar grantiau, budd-daliadau, taliadau tanwydd gaeaf a thaliadau tywydd oer a sut i wneud y cartref yn fwy effeithlon o ran egni<br>o cyngor ar sut i gefnogi perthynas hŷn neu aelod hŷn o'r gymuned<br><br>Rhowch farciau am gyfeiriad at Joe mewn perthynas â'i oedran a/neu gyflyrau.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o rôl “Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel” wrth wella iechyd, llesiant a gwydnwch pobl hŷn yng Nghymru.<br>• dealltwriaeth hyderus o amrywiaeth o ffyrdd y gall “Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel” gyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch pobl hŷn |
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o rôl “Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel” wrth wella iechyd, llesiant a gwydnwch pobl hŷn yng Nghymru<br>• dealltwriaeth sicr o'r ffyrdd y gall “Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel” gyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch pobl hŷn |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth glir ar y cyfan o rôl “Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel” wrth wella iechyd, llesiant a/neu wydnwch pobl hŷn yng Nghymru<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o rai o'r ffyrdd y gall “Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel” gyfrannu at wella iechyd, llesiant a/neu wydnwch pobl hŷn |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sicr o rôl “Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel” wrth wella iechyd, llesiant neu wydnwch pobl hŷn yng Nghymru<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o un ffordd o leiaf y gall “Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel” gyfrannu at wella iechyd, llesiant neu wydnwch pobl hŷn |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **5.** | *Mae trefnu digwyddiadau hyrwyddo (promotional events) yn un dull posibl o roi gwybodaeth er mwyn annog unigolion i wella eu hiechyd, eu llesiant a'u gwydnwch.*<br><br>*Disgrifiwch* ***dri*** *dull arall sy'n gallu cael eu defnyddio i roi gwybodaeth i unigolion er mwyn gwella eu hiechyd, eu llesiant a'u gwydnwch.* | 6<br>[2,2,2] | | | 6 |
| | Rhowch hyd at **2 farc** am bob dull<br><br>**Rhowch 1 marc** am nodi dull sy'n gallu cael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth i unigolion er mwyn gwella eu hiechyd, eu llesiant a'u gwydnwch.<br><br>**Rhowch 2 farc** am ddisgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ddull sy'n gallu cael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth i unigolion er mwyn gwella eu hiechyd, eu llesiant a'u gwydnwch.<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Y cyfryngau torfol – unrhyw ddeunydd sydd wedi'i argraffu neu ddeunydd clyweledol wedi'i gynllunio i gyrraedd cynulleidfa dorfol. Mae hyn yn cynnwys papurau newydd, cylchgronau, radio, teledu, hysbysfyrddau.<br><br>Y cyfryngau cymdeithasol – e.e. Facebook, Twitter a mathau eraill o gyfryngau cymdeithasol y ceir mynediad atynt drwy gyfrifiaduron/gliniaduron a ffonau symudol. Mae'r dull hwn fel arfer yn apelio at gynulleidfa ifancach.<br><br>Posteri – gellir eu harddangos mewn amrywiaeth eang o leoliadau dan do ac yn yr awyr agored ac mae angen iddynt fod yn apelgar er mwyn denu sylw.<br><br>Taflenni – gellir eu dosbarthu'n helaeth i bob cartref a'u gadael mewn lleoliadau cyhoeddus i bobl eu casglu a'u darllen.<br><br>Gellir defnyddio'r dulliau hyn i roi gwybodaeth i unigolion er mwyn newid eu hiechyd a'u llesiant a'u gwydnwch drwy wneud y canlynol:<br>• gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth<br>• newid ac atgyfnerthu agweddau<br>• cynnal diddordeb<br>• annog camau gweithredu<br>• dangos sgiliau syml<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **6.** | (a) | *Mae Llywodraeth Cymru'n casglu data am iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc yng Nghymru.*<br><br>*Amlinellwch sut mae'r data hyn yn gallu cefnogi'r angen am ymgyrchoedd iechyd a llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.* | 6 | | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Mae data sy'n cael eu casglu am iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc yng Nghymru yn cefnogi'r angen am ymgyrchoedd iechyd a llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru oherwydd:<br>• mae'r data yn dangos bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) arbenigol yng Nghymru o dan fwy o bwysau nag erioed o'r blaen<br>• mae problemau iechyd meddwl yn effeithio ar un o bob 10 o blant a phobl ifanc. Maent yn cynnwys iselder, gorbryder ac anhwylder ymddygiad, ac maent yn aml yn ymateb yn uniongyrchol i'r hyn sy'n digwydd yn eu bywydau.<br>• mae achosion o afiechyd meddwl difrifol ymhlith y boblogaeth yng Nghymru yn fwyaf cyffredin ymhlith oedolion ifanc rhwng 18 a 25 oed<br>• mae'r data yn tynnu sylw at y ffaith bod ymyrryd yn gynnar ac addysg yn angenrheidiol er mwyn gwella iechyd a llesiant<br>• mae'r data yn dangos bod llawer o ffactorau yn effeithio ar iechyd meddwl a llesiant (e.e. tlodi, addysg, cyflogaeth, ynysigrwydd cymdeithasol, cyffuriau, alcohol) pobl ifanc a bod angen ymgyrchoedd iechyd a llesiant er mwyn mynd i'r afael â phob un ohonynt a gwella iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc<br>• mae ymyrryd yn gynnar ac addysg yn ffyrdd cadarnhaol o wella iechyd meddwl a llesiant<br>• gall sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau a gwaith cynllunio ymlaen llaw.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Amlinelliad da iawn sy'n:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o ddata am iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru<br>• dangos yn glir sut mae’r data yn gallu cefnogi’r angen am ymgyrchoedd iechyd a llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Amlinelliad da sy'n:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ddata am iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc yng Nghymru<br>• dangos sut mae’r data yn gallu cefnogi’r angen am ymgyrchoedd iechyd a llesiant ar gyfer plant a/neu bobl ifanc yng Nghymru |
| **1** | **1-2 marc**<br>Amlinelliad sylfaenol sy'n:<br>• dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddata am iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru<br>• prin ddangos sut mae’r data yn gallu cefnogi’r angen am ymgyrchoedd iechyd a llesiant ar gyfer plant neu bobl ifanc yng Nghymru |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **6.** | (b) | *Aseswch beth yw prif fanteision a chyfyngiadau (limitations) y rolau mae gweithwyr addysg yn eu cyflawni o ran hybu iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc yng Nghymru.* | | | 8 | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>prif fanteision a chyfyngiadau'r rolau mae gweithwyr addysg yn eu cyflawni o ran hybu iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc yng Nghymru gan gynnwys:<br><br>Manteision:<br>• mae cynulleidfa gaeth yn y lleoliad<br>• gellir defnyddio dull ysgol gyfan, a gellir targedu llawer o bobl ifanc ar yr un pryd<br>• arbenigedd/gwybodaeth: meddu ar wybodaeth helaeth, hyfforddiant cyfredol, mynediad at adnoddau a'r gallu i addasu a gwahaniaethu'r cynnwys<br>• gwybodaeth am yr unigolyn: bydd ganddo berthynas waith â'r gynulleidfa darged<br>• mae pobl ifanc yn fwy tebygol o dderbyn cyngor ac arweiniad gan bobl y maent yn ymddiried ynddynt ac yn eu parchu, fel gweithwyr addysg<br>• darparu lleoliad cefnogol i bobl ifanc sy'n rhannu nod neu broblem gyffredin<br>• gall trafodaeth grŵp cyfoedion alluogi dealltwriaeth<br><br>Cyfyngiadau:<br>• gall pobl ifanc fod yn amharod i ddilyn cyngor ac arweiniad<br>• mae'n bosibl na fydd digon o amser i roi cymaint o gefnogaeth ag sydd ei angen ar unigolion<br>• gall cyfyngiadau ariannol olygu na chaiff digon o adnoddau/amser eu neilltuo i'r ddarpariaeth neu i hyfforddiant<br>• mae'n bosibl na fydd modd targedu pawb sydd mewn angen e.e. os bydd person ifanc yn absennol o'r ysgol.<br>• Gall cyfyngiadau olygu mai dim ond darpariaeth gyfyngedig a gynigir na fydd o bosibl yn addas i bob person ifanc yn y gynulleidfa darged.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unigolion sy'n gweithio ym maes addysg sy'n chwarae rhan wrth hybu iechyd, llesiant a gwydnwch pobl ifanc e.e. cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cymorth dysgu a gweithwyr plant/ieuenctid.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Asesiad ardderchog sy'n dangos:<br>• barn graff a hyddysg am amrywiaeth o fanteision a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r rolau mae gweithwyr addysg yn eu cyflawni o ran hybu iechyd, llesiant a gwydnwch pobl ifanc yng Nghymru.<br>• ymgysylltiad hyderus a manwl â chyfraniadau posibl unigolion sy'n gweithio ym maes addysg at y gwaith o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Asesiad da sy'n dangos:<br>• barn resymegol am amrywiaeth o fanteision a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r rolau mae gweithwyr addysg yn eu cyflawni o ran hybu iechyd, llesiant a gwydnwch pobl ifanc yng Nghymru.<br>• ymgysylltiad trylwyr â chyfraniadau posibl unigolion sy'n gweithio ym maes addysg at y gwaith o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion |
| **2** | **3-4 marc**<br>Asesiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• barn ddilys ar y cyfan am rai o fanteision a/neu gyfyngiadau'r rolau mae gweithwyr addysg yn eu cyflawni o ran hybu iechyd, llesiant a/neu wydnwch pobl ifanc yng Nghymru.<br>• ymgysylltiad syml â chyfraniadau posibl unigolion sy'n gweithio ym maes addysg at y gwaith o hybu iechyd, llesiant a/neu wydnwch unigolion |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:<br>• peth barn am nifer bach o fanteision neu gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r rôl/rolau mae gweithwyr addysg yn ei chyflawni/eu cyflawni o ran hybu iechyd, llesiant neu wydnwch pobl ifanc yng Nghymru.<br>• ymgysylltiad prin â chyfraniadau posibl unigolion sy'n gweithio ym maes addysg at y gwaith o hybu iechyd, llesiant neu wydnwch unigolion |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **7.** | *Mae colesterol uchel yn gallu cael ei achosi gan glefyd etifeddol amlffactor, ac mae'n ffactor risg addasadwy posibl (potential modifiable risk factor) i iechyd, llesiant a gwydnwch.*<br><br>*Esboniwch sut mae* ***dau*** *ffactor risg addasadwy posibl arall yn achosi risg i iechyd, llesiant a gwydnwch.* | | 8 | | 8 |
| | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Mae clefydau etifeddol amlffactor yn cyfeirio at y problemau meddygol cyffredin hynny fel clefyd y galon, pwysedd gwaed uchel, diabetes Math 2, nad oes ganddynt achos genetig unigol. Fwy na thebyg eu bod yn gysylltiedig ag effeithiau genynnau lluosog wedi'u cyfuno â ffactorau ffordd o fyw a ffactorau amgylcheddol.<br><br>Pwysedd gwaed uchel:<br>• yn rhoi straen ychwanegol ar y galon a'r pibellau gwaed. Mae'r straen ychwanegol hwn yn cynyddu'r risg o drawiad ar y galon neu strôc.<br>• Gall hefyd achosi clefyd y galon a chlefyd yr arennau<br>• mae cysylltiad agos rhyngddo â rhai mathau o ddementia.<br>• gall achosi i'r rhydwelïau galedu a thewhau (atherosclerosis), a all arwain at drawiad ar y galon, strôc neu gymhlethdodau eraill<br>• mae'n aml yn arwain at lefelau uwch o orbryder ac iselder<br><br>Diabetes Math 2:<br>• gall effeithio ar eich disgwyliad oes.<br>• mae'n aml yn arwain at gyflyrau cronig e.e. clefyd y llygaid (retinopathi), clefyd yr arennau, canser, clefyd y deintgig, problemau rhywiol, clefyd y galon, diffyg yn y broses wella<br>• gall arwain at gyflyrau acìwt e.e. pyliau hypoglycaemig (glwcos y gwaed yn rhy isel), pyliau hyperglycaemig (glwcos y gwaed yn rhy uchel), cetoasidosis diabetig (argyfwng sy'n bygwth bywyd lle mae'r diffyg inswlin a'r lefelau uchel o siwgr yn y gwaed sy'n deillio o hynny yn arwain at getonau yn cronni)<br>• yn arwain at newidiadau o ran ffordd o fyw e.e. gorfod defnyddio inswlin a monitro lefelau siwgr yn y gwaed yn rheolaidd drwy gydol y dydd, gorfod newid deiet, bwyta'n rheolaidd, gwneud mwy o ymarfer corff, colli pwysau.<br>• mae'n aml yn arwain at lefelau uwch o orbryder ac iselder | | | | |

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Clefyd y galon:<br>• nid oes gan unigolion â chlefyd y galon bob amser symptomau, felly mae'n bosibl na fydd unigolyn yn ymwybodol bod y cyflwr arno. Weithiau, gall hyn olygu mai dim ond ar ôl marwolaeth gardiaidd sydyn (SCD) y bydd y teulu yn ymwybodol o'r cyflwr.<br>• mae cyflyrau cardiaidd etifeddol (ICC) yn derm cyffredinol sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o glefydau cymharol brin sy'n gysylltiedig â'r galon. Cyfeirir atynt hefyd fel cyflyrau cardiaidd genetig a gallant fygwth bywyd<br>• mae'r prosesau ar gyfer canfod cyflyrau cardiaidd etifeddol yn gynnar a'r canllawiau ar sut y gall unigolion fyw â'u cyflwr yn gwella,<br>• mae triniaethau effeithiol sy'n galluogi unigolion i fyw bywyd normal.<br>• bydd angen gwahanol ymyriadau ar gyfer gwahanol gyflyrau, gan gynnwys meddyginiaeth, newidiadau i ffordd o fyw, llawdriniaeth y galon<br>• mae chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn cynnig llawer o fanteision; fodd bynnag, gall ymarfer corff egnïol fod yn beryglus i unigolion â chlefyd etifeddol y galon<br><br>Rhowch farciau hefyd am y canlynol:<br>• gordewdra<br>• ysmygu<br>• camddefnyddio alcohol/sylweddau<br>• rhyw anniogel<br>• clefyd heintus<br>• unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol<br>• llai o symudedd<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut mae dau ffactor risg addasadwy posibl arall yn achosi risg i iechyd, llesiant a gwydnwch<br>• dealltwriaeth hyderus o amrywiaeth o ffyrdd y gallai pob ffactor risg addasadwy posibl effeithio ar iechyd, llesiant a gwydnwch unigolyn. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ddau ffactor risg addasadwy posibl arall ac effaith bosibl y ddau ar iechyd, llesiant a gwydnwch<br>• dealltwriaeth sicr o'r ffyrdd y gallai pob ffactor risg addasadwy posibl effeithio ar iechyd, llesiant a gwydnwch unigolyn. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth glir ar y cyfan o ddau ffactor risg addasadwy posibl arall ac effaith bosibl y ddau/y risg ar iechyd, llesiant a/neu wydnwch<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o rai o'r ffyrdd y gallai pob ffactor risg addasadwy posibl effeithio ar iechyd, llesiant a/neu wydnwch unigolyn. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddau ffactor risg addasadwy posibl arall ac effaith bosibl y ddau/y risg ar iechyd, llesiant neu wydnwch<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o un ffordd o leiaf y gallai pob ffactor risg addasadwy posibl effeithio ar iechyd, llesiant neu wydnwch unigolyn. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **8.** | *Mae penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd yn gallu cyfrannu at anghydraddoldebau mewn iechyd a llesiant.*<br><br>*Disgrifiwch beth yw prif nodweddion amodau byw a gweithio fyddai'n gallu dylanwadu ar iechyd a llesiant, ac ystyriwch sut mae'r nodweddion hyn yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.* | **6** | | **8** | **14** |
| | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Amodau byw:<br>• mae cartrefi iach yn hybu iechyd corfforol ac iechyd meddwl da<br>• mae amodau oer y tu mewn yn gysylltiedig ag iechyd gwaeth<br>• mae tymereddau isel ac uchel eithafol yn gysylltiedig â marwoldeb uwch, yn enwedig ymhlith poblogaethau agored i niwed fel yr henoed<br>• gall amodau byw gorlawn a gwael gyfrannu at ledaenu clefydau sy'n lledu drwy'r awyr fel twbercwlosis a heintiau anadlol fel niwmonia<br>• gall diffyg dŵr glân a iechydaeth hefyd gyfrannu at iechyd gwael a chynyddu marwoldeb<br>• yn effeithio ar iechyd a llesiant corfforol, iechyd a llesiant cymdeithasol ac iechyd a llesiant seicolegol<br>• mynediad at wasanaethau iechyd, gofal a lles, addysg, siopau a hamdden cyhoeddus, cyfleusterau hamdden, trafnidiaeth gyhoeddus<br>• dioglwch digonol rhag tân, damweiniau ac anaf<br>• gall agosrwydd at ffyrdd gynyddu llygredd aer gan gynyddu'r tebygolrwydd o ddatblygu clefydau anadlol<br><br>Amodau gwaith:<br>Mae rhai swyddi penodol yn cynnwys risgiau a pheryglon y mae angen eu rheoli, er enghraifft:<br>• gwaith llaw (e.e. gweithio ag offer sy'n dirgrynu, gweithio mewn amgylchedd swnllyd, mewnanadlu mygdarthau a all achosi problemau anadlol).<br>• gofal iechyd (e.e. straen oherwydd llwythi gwaith ac oriau hir, gwaith shifftiau, dewisiadau ffordd o fyw aniach oherwydd pwysau gwaith).<br>• swyddi eisteddog mewn swyddfa (e.e. MSD a 'chlefyd eistedd' – syndrom metabolaidd ac effeithiau negyddol ffordd eisteddog o fyw) | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Diwylliant y gweithle. Mae rhai gweithleoedd yn hybu ethos ‘gweithio hyd y pen’ lle yr ystyrir ei bod hi'n normal gweithio drwy egwyliau neu wneud goramser, ond mae eraill yn annog staff i gymryd egwyliau rheolaidd er mwyn eu helpu i ymlacio a rhoi hwb i forâl. Fodd bynnag, mewn rhai swyddi, fel mewn amgylcheddau gofal iechyd, gall fod yn anodd iawn trefnu egwyliau oherwydd natur anrhagweladwy llwythi gwaith a sensitifrwydd amser y gwaith dan sylw.<br><br>• Gall rhai amodau gwaith penodol achosi risg seicogymdeithasol:<br>o llwythi gwaith gormodol (mae'n bosibl na fydd yr hyn sy'n ‘ormodol’ i un person yn ormodol i un arall; ond gellid ystyried bod person yn ei chael hi'n anodd os bydd yn methu terfynau amser, bod ansawdd y gwaith yn dioddef neu os yw'r person yn teimlo dan straen neu'n bryderus am y gwaith y mae angen iddo ei gwblhau)<br>o rheolaeth wael (diffyg cefnogaeth a chyfathrebu, newid sefydliadol wedi'i reoli'n wael)<br>o perthnasoedd gwaith gwael â chydweithwyr<br>o gall gweithwyr ar gontractau dim oriau deimlo o dan bwysau i weithio pan fyddant yn cael cais i wneud hynny gan y byddant ofn colli eu swyddi<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **4** | Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn. Dyfernir 6 marc fel yn achos Band 3. | **7-8 marc**<br>• Ymateb ardderchog sy'n dangos:<br>○ barn graff a hyddysg am sut mae amodau byw a gweithio yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>○ ymgysylltiad hyderus a manwl â'r cysyniad o amodau byw a gweithio a'u heffaith bosibl ar ddarparu gofal<br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o amrywiaeth eang o derminoleg. Mae’r gwaith ysgrifennu wedi’i strwythuro’n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| **3** | **5-6 marc**<br>• Ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o brif nodweddion yr amodau byw a gweithio sy'n gallu dylanwadu ar iechyd a llesiant | **5-6 marc**<br>• Ymateb da sy'n dangos:<br>○ barn resymegol am sut mae amodau byw a gweithio yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>○ ymgysylltiad trylwyr â'r cysyniad o amodau byw a gweithio a'u heffaith bosibl ar ddarparu gofal<br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan. |
| **2** | **3-4 marc**<br>• Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o rai o brif nodweddion yr amodau byw a/neu amodau gweithio sy'n gallu dylanwadu ar iechyd a llesiant | **3-4 marc**<br>• Ymateb sylfaenol sy'n dangos:<br>○ barn ddilys ar y cyfan am sut mae amodau byw a/neu amodau gweithio yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>○ ymgysylltiad syml â'r cysyniad o amodau byw a/neu amodau gweithio a'u heffaith bosibl ar ddarparu gofal<br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir. |

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr><th>Band</th><th>AA1</th><th>AA3</th></tr>
<tr><td>1</td><td>1-2 farc<ul><li>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth, yn gyffredinol, o rai o nodweddion yr amodau byw neu'r amodau gweithio sy'n gallu dylanwadu ar iechyd a llesiant</li></ul></td><td>1-2 farc<ul><li>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:<ul><li>peth barn ddilys am sut mae amodau byw neu amodau gweithio yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau</li><li>ymgysylltiad prin â'r cysyniad o amodau byw neu amodau gweithio a'u heffaith bosibl ar ddarparu gofal</li></ul></li></ul>Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu.</td></tr>
<tr><td></td><td>0 marc<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb.</td><td>0 marc<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | | Cynnwys y fanyleb (prif ffocws) | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adran | | | Rhan | Cyfanswm y Marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | | 2.1.1 | 2.1.2 | 2.1.3 | | | | | |
| **1.** | | | | 8 | | (c) | **8** | 8 | 0 | 0 |
| **2.** | (a) | | 6 | | | (c) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | | (b) | **6** | 0 | 0 | 6 |
| **3.** | | | | | 10 | (a) | **10** | 0 | 0 | 10 |
| **4.** | | | | | 8 | (d) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| **5.** | | | | | 6 | (ch) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| **6.** | (a) | | | 6 | | (b) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | | | 8 | (dd) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **7.** | | | | | 8 | (b) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| **8.** | | | 6 | 8 | | (a) (a) | **14** | 6 | 0 | 8 |
| Cyfanswm marciau | | | **18** | **22** | **40** | | **80** | **32** | **16** | **32** |



© WJEC CBAC Ltd.